

# Tom Parry

**Tir Na N'og, 10 Gwaun Ganol, Cricieth, LL52 0TB**

**£315,000**

## 'Tir Na N'og', 10 Gwaun Ganol, Cricieth, LL52 0TB

Mae'n bleser gan Tom Parry & Co gynnig yr eiddo hwn ar werth wedi ei leoli yn ardal dawel Gwaun Ganol, Cricieth. Mae'r ty yn cynnig trefniant byw unigryw, wyneb i waered sy'n gwneud y gorau o'r golygfeydd hyfryd o'r castell cyfagos a'r môr. Gyda thair ystafell wely gymesur a dwy ystafell ymolchi, mae'r eiddo hwn yn berffaith ar gyfer teuluoedd neu'r rhai sy'n ceisio encil heddychlon.

Mae gan yr eiddo ddigon o le parcio oddi ar y ffordd ar gyfer hyd at ddau gerbyd, heb sôn am y garej sydd hefyd yn gallu cynnig lle parcio neu storfa. Mae gardd daclus o flaen y ty yn ogystal â gardd gefn sy'n cynnig noddfa breifat i fwynhau'r gofod awyr agored. Gall y gerddi fod mor gynhaliol ag y dymunwch neu'n gyfle perffaith i'r rhai sydd â bysedd gwyrdd.

Mae'r eiddo yn darparu cyfle i fyw'n gyfforddus mewn ardal dawel, gydag amgylchedd hardd Cricieth yn gwella'r apêl gyffredinol. Os ydych yn chwilio am gartref ar gyfer teulu neu os ydy ty byw wyneb i waered yn apelio atoch yna peidiwch â cholli'r cyfle i wneud y ty hwylus hwn yn gartref newydd i chi.

**C402**

### LLAWR GWAELOD

**Porch**
gwydr a lloriau carped

**Cyntedd**
gyda llawr carped; rheiddiadur; storfa o dan y grisiau.

**Ystafell Wely 2**
gyda llawr carped; rheiddiadur; ffenestr fawr i'r tu blaen.

**Ystafell Wely 3**
gyda llawr teils 'thermoplastig'; rheiddiadur; ffenestr yn edrych dros yr ardd gefn.

**Ystafell Ymolchi**
gyda llawr carped; waliau wedi eu teilsio; rheiddiadur; swît lliw yn cynnwys bath gyda chawod drosto; basn ymolchi dwylo a thoiled.

**Ystafell Ambell Bwrpas**
gyda llawr carped; rheiddiadur; gyda lle a phlymio ar gyfer peiriant golchi; sinc a draeniwr dur di-staen; drws i'r ardd gefn.

### LLAWR CYNTAF

**Landin/Cyntedd llawr cyntaf**
mynediad i'r llofft ar y landin.

**Ystafell Fyw**
gyda llawr carped; dau reiddiadur; ffenestri dwy agwedd yn mwynhau golygfeydd o'r môr a'r castell i'r tu blaen; tân trydan wedi'i osod o fewn lle tân teils.

**Cegin**
gydag amryw o gypyrddau i'r waliau uwchben & llawr gyda digon o arwynebedd gwaith; lle ar gyfer popty; sinc a draeniwr; bar brecwast lefel isel; lle a phlymio ar gyfer peiriant golchi llestri a ffenestr yn edrych dros yr ardd.

**Ystafell Wely 1**
gyda llawr carped; rheiddiadur; ffenestr fawr i'r tu blaen yn mwynhau golygfeydd o'r Castell; cwpwrdd storio; storfa dros wely wedi'i adeiladu.

**Ystafell Ymolchi**
gyda llawr carped; rheiddiadur; toiled lefel isel a basn ymolchi pedestal.

### YN ALLANOL

Ceir mynediad i'r eiddo dros balmant brics sydd yn mynd yr holl ffordd i du blaen y garej. i un ochr mae ffin o lwyni a phlanhigion aeddfed, ac i'r ochr arall mae ardal o laswellt gwastad.

Yn y cefn mae gardd o faint da gyda gwair wedi'i osod, mae amryw o blanhigion aeddfed, coed a llwyni yno a thy gwydr. Mae llwybr o slabiau palmantog concrit yn rhoi mynediad rhwydd i bob man.

### GWASANAETHAU

Prif gyflenwad dwr, trydan a draeniad. Gwres canolog olew.

### GWYBODAETH BERTHNASOL

Daliadaeth: Rhydd-ddaliad – prif breswylfa


Treth y Cyngor: Band E














NOTE: The Agents have not tested any electrical installations, central heating system or other appliances and services referred to in these particulars and no warranty is given as to their working ability.

THESE PARTICULARS ARE THOUGHT TO BE MATERIALLY CORRECT THOUGH THEIR ACCURACY IS NOT GUARANTEED AND THEY DO NOT FORM PART OF ANY CONTRACT.

OnTheMarket.com
The Property Ombudsman
rightmove find your happy